Llywodraeth Cymru

CANLLAWIAU STATUDOL AR FUDDSODDIADAU LLYWODRAETH LEOL

Cyhoeddwyd o dan adran 15(1) (a) o *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003*, yn weithredol ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020 neu ar ôl hynny

Y PŴER Y CYHOEDDIR Y CANLLAWIAU YN UNOL AG EF

1. Cyhoeddir y canllawiau canlynol gan Weinidogion Cymru o dan adran 15(1) (a) a 24 o *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003*. O dan yr adran honno mae'n ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

DIFFINIADAU O'R TERMAU

2. Yn y canllawiau hyn, ystyr ***Deddf 2003*** yw *Deddf Llywodraeth Leol 2003*.

3. Mae i ***awdurdodau lleol*** yr ystyr a roddir yn adran 23 o Ddeddf 2003 (ac mewn rheoliadau a wnaed o dan yr adran honno). I'r graddau y mae'r canllawiau hyn yn gymwys i gynghorau cymuned a thref ac ymddiriedolwyr siarter (gweler paragraff 12), mae unrhyw gyfeiriad at "awdurdod lleol" yn cynnwys y cynghorau a'r ymddiriedolwyr hynny.

4. Ystyr ***buddsoddiad*** yw rhywbeth a ddelir neu drafodiad sy'n dibynnu ar y pŵer yn adran 12 o Ddeddf 2003[1]. Hynny yw, ar gyfer unrhyw ddiben sy'n berthnasol i'w swyddogaethau o dan unrhyw ddeddfiad, neu er mwyn rheoli ei faterion ariannol mewn modd darbodus. Mae hyn yn cwmpasu'r holl asedau ariannol ac anariannol y mae awdurdod lleol wedi buddsoddi arian ynddynt yn bennaf neu'n rhannol er mwyn cynhyrchu gwarged gan gynnwys eiddo buddsoddi. Fel y cyfryw, gall hyn gynnwys buddsoddiadau na chânt eu rheoli fel rhan o brosesau rheoli trysorlys arferol nac o dan ddirpwyaethau rheoli trysorlys.

[1]https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2003/26/section/12

5. Mae'r diffiniad o fuddsoddiad hefyd yn cwmpasu benthyciadau a wneir gan awdurdod lleol i gwmni neu gyfrannog o dan berchenogaeth lwyr, i gyd-fenter, neu i drydydd parti.

6. Nid yw'r term yn cynnwys *buddsoddiadau mewn cronfeydd pensiwn nac mewn cronfeydd ymddiriedol*. Mae trefniadau rheoleiddio ar wahân ar eu cyfer hwy ac o'r herwydd, nid ymdrinnir â hwy yn y canllawiau hyn.

7. Ystyr ***buddsoddiad tymor hir*** yw unrhyw fuddsoddiad ac eithrio un sydd i'w ad-dalu ymhen 12 mis i ddyddiad gwneud y buddsoddiad.

8. Ystyr ***asiantaeth asesu statws credyd*** yw un o'r tri chwmni a ganlyn: *Standard and Poor's; Moody's Investors Service Ltd; Fitch Ratings Ltd*.

9. At ddibenion y canllawiau hyn, ystyr ***benthyciad*** yw cytundeb ysgrifenedig neu gytundeb llafar pan fo awdurdod lleol yn trosglwyddo arian parod dros dro i drydydd parti, cyd-fenter, is-gwmni neu gyfrannog sy'n cytuno ar enillion yn unol â'r telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r benthyciad. Nid yw'r diffiniad hwn yn cynnwys benthyciad i awdurdod lleol arall. Ystyrir bod benthyciad o'r farn yn fuddsoddiad penodedig.

10. Mae buddsoddiad yn ***fuddsoddiad penodedig*** os yw'n bodloni'r holl amodau isod

    (a) bod y buddsoddiad yn cael ei wneud mewn sterling a bod unrhyw daliadau neu ad-daliadau mewn cysylltiad â'r buddsoddiad yn daladwy mewn sterling yn unig;

    (b) nad yw'r buddsoddiad yn *fuddsoddiad tymor hir* (fel y'i diffinnir ym mharagraff 7) ac eithrio benthyciad i awdurdod lleol arall;

    (c) nad yw gwneud y buddsoddiad yn cael ei ddiffinio'n wariant cyfalaf yn rhinwedd rheoliad 20(1)(d) o *Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 [OS 3239 fel y'i diwygiwyd];*

    (d) bod y buddsoddiad yn cael ei wneud gyda chorff neu gynllun buddsoddi o *ansawdd credyd uchel*; neu gydag un o'r cyrff a ganlyn yn y sector cyhoeddus:
        (i) Llywodraeth y Deyrnas Unedig
        (ii) awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr (fel y'i diffinnir yn adran 23 o Ddeddf 2003) neu gorff tebyg yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon
        (iii) cyngor tref neu gymuned.

CYMHWYSO

Dyddiad dod i rym

11. Mae'r canllawiau hyn yn gymwys ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020 neu ar ôl hynny ac maent yn disodli'r canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2010.

Awdurdodau lleol

12. Mae'r canllawiau hyn yn gymwys i holl awdurdodau lleol Cymru.

Cynghorau Tref a Chymuned ac ymddiriedolwyr siarter

13. Mae'r canllawiau hyn yn gymwys i Gynghorau Tref a Chymuned ac Ymddiriedolwyr Siarter y disgwylir i gyfanswm eu buddsoddiadau fod yn fwy na £250,000 ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol.

14. Rhaid i bob cyngor tref a chymuned ac ymddiriedolwr siarter arall na ddisgwylir i'w fuddsoddiadau fod yn fwy na £250,000 roi sylw dyledus i'r canllawiau hyn a rhoi blaenoriaeth, wrth fuddsoddi, i hylifedd ac i ddiogelwch yn hytrach nag i arenillion. Ni fydd lefel y manylder na'r gofynion penodol a amlinellir yn y canllawiau hyn yn gymwys felly, ond dylai pob Cyngor Tref a Chymuned neu Ymddiriedolwr Siarter:

    (i) cytuno, man lleiaf, ar Strategaeth Gyfalaf cyn dechrau'r flwyddyn ariannol; gall wneud hyn yn ystod proses pennu'r gyllideb;
    (ii) cytuno ar derfynau priodol ar gyfer pob categori o fuddsoddiad y mae'n bwriadu ei wneud;
    (iii) cytuno ar broses a fydd yn caniatáu iddo fonitro'r strategaeth yn effeithiol yn ystod y flwyddyn;
    (iv) sicrhau bod yr holl fuddsoddiadau'n cael eu gwneud mewn Sterling.

STRATEGAETH FUDDSODDI

Paratoi

15. Rhaid i awdurdod lleol baratoi o leiaf un Strategaeth fuddsoddi ("y Strategaeth") ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan wneud hynny yn unol â'r datgeliadau a'r gofynion adrodd a nodir yn y canllawiau hyn.

16. Swyddogaeth Strategaeth Gyfalaf yng Nghod Materion Ariannol diweddaraf CIPFA yw nodi'r cyd-destun hirdymor ar gyfer gwariant cyfalaf a phenderfyniadau buddsoddi, gan roi ystyriaeth ddyledus i'r risgiau a'r gwobrau a'r effaith ar gyflawni canlyniadau â blaenoriaeth. Felly, pan fo awdurdod lleol yn paratoi Strategaeth Gyfalaf yn unol â gofynion y Cod Materion Ariannol, Strategaeth Rheoli Trysorlys yn unol â gofynion y Cod Rheoli Trysorlys neu unrhyw ddogfen arall sydd ar gael i'r cyhoedd, gall y datgeliadau sy'n ofynnol ar gyfer y strategaeth gael eu hymgorffori yn y dogfennau hynny.

Cymeradwyo

17. Dylai'r Strategaeth gael ei chymeradwyo gan y cyngor llawn. Yn achos yr awdurdodau hynny nad oes ganddynt gyngor llawn, fel awdurdodau Gwasanaeth Tân ac Achub, dylai'r Strategaeth gael ei chymeradwyo ar y lefel gyfatebol agosaf.

Amseriadau

18. Mae Gweinidogion Cymru yn argymell y dylai'r Strategaeth fuddsoddi ("y Strategaeth gychwynnol") ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol gael ei pharatoi a'i chymeradwyo cyn dechrau'r flwyddyn honno.

19. Ceir cyflwyno Strategaeth arall ("y Strategaeth ddiwygiedig") yn lle'r Strategaeth gychwynnol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn, gan wneud hynny ar fwy nag un achlysur os oes angen, ar yr amod y dilynir yr un broses gymeradwyo. Dylid nodi yn y Strategaeth gychwynnol o dan ba amgylchiadau y bydd gofyn paratoi Strategaeth ddiwygiedig, ond ceir paratoi Strategaeth ddiwygiedig o dan amgylchiadau eraill, os bernir ar unrhyw adeg bod hynny'n briodol.

Cyhoeddi

20. Ar ôl i'r Strategaeth gychwynnol ac unrhyw Strategaeth ddiwygiedig gael eu cymeradwyo, dylent fod ar gael yn ddi-dâl i'r cyhoedd, naill ai ar ffurf brintiedig neu ar-lein.

PRIF EGWYDDORION POLISI

21. Dylai'r Strategaeth nodi polisïau'r awdurdod ar gyfer rheoli ei fuddsoddiadau mewn modd darbodus ac ar gyfer rhoi blaenoriaeth, yn y lle cyntaf, i ba mor ddiogel yw'r buddsoddiadau hynny ac, yn ail, i'w hylifedd. Dylai, felly, nodi'r gweithdrefnau ar gyfer monitro, asesu a lliniaru'r risg o golli symiau a fuddsoddwyd ac ar gyfer sicrhau bod modd cael gafael yn hawdd ar symiau o'r fath pan fo'u hangen ar gyfer gwariant.

Y PŴER I FUDDSODDI

22. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio eu pwerau buddsoddi ar gyfer unrhyw ddiben sy'n berthnasol i'w swyddogaethau ac er mwyn rheoli ei faterion ariannol mewn modd darbodus. Yn yr un modd â phwerau eraill awdurdodau lleol, rhaid iddynt gael eu defnyddio mewn modd rhesymol ac yn unol â phrif swyddogaeth awdurdod i wasanaethu'r cyhoedd, er enghraifft, i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac i hyrwyddo ei lesiant.

DOSBARTHIAD

23. Gellir dosbarthu Buddsoddiadau Ariannol a Buddsoddiadau Anariannol a wneir gan awdurdodau lleol yn un o dri phrif gategori;

    (i) Buddsoddiadau a ddelir at ddibenion rheoli trysorlys;
    (ii) Buddsoddiadau masnachol;
    (iii) Buddsoddiadau eraill sy'n berthnasol i swyddogaethau'r cyngor.

24. Pan fydd awdurdodau lleol yn dal buddsoddiadau rheoli trysorlys, dylent gymhwyso'r egwyddorion a nodir yng Nghod Rheoli Trysorlys CIPFA. Dylent ddatgelu'r cyfraniad y mae'r buddsoddiadau hyn yn ei wneud i amcanion yr awdurdod lleol i gefnogi gweithgareddau rheoli trysorlys yn effeithiol.

25. Dylai awdurdodau lleol ddatgelu'r cyfraniad y mae buddsoddiadau masnachol h.y. buddsoddiad mewn busnes er elw sy'n gysylltiedig â phrynu neu werthu nwyddau a gwasanaethau, gyda'r disgwyliad y cynhyrchir llif arian parod yn ei wneud tuag at gyflawni amcanion o ran darparu gwasanaethau a/neu i hyrwyddo llesiant.

26. Dylai awdurdodau lleol ddatgelu'r cyfraniad y mae buddsoddiadau eraill yn ei wneud tuag at gyflawni amcanion o ran darparu gwasanaethau a/neu i hyrwyddo llesiant.

27. Dylai awdurdodau lleol ddatgelu i ba raddau y mae penderfyniadau buddsoddi yn ystyried risgiau tymor hir sy'n ymwneud â'r hinsawdd er mwyn cefnogi economi carbon isel.

Buddsoddiadau Ariannol

28. Gall buddsoddiadau ariannol berthyn i un o dri chategori:

    (i) ***Buddsoddiadau Penodedig***
    (ii) ***Benthyciadau***
    (iii) ***Buddsoddiadau Amhenodedig Eraill***

Buddsoddiadau Penodedig

29. Pan gaiff y buddsoddiad ei wneud gyda chorff neu gynllun buddsoddi o *ansawdd credyd uchel*, mae Gweinidogion Cymru yn argymell y dylai'r Strategaeth ddiffinio *ansawdd credyd uchel* (a phan fo'r diffiniad hwn yn cyfeirio at statws credyd, mae paragraff 47 yn berthnasol)

Benthyciadau

30. Gall awdurdod lleol ddewis gwneud ***benthyciadau*** i fusnesau lleol, elusennau lleol, cwmnïau dan berchenogaeth lwyr a chyd-fentrau fel rhan o strategaeth ehangach ar gyfer twf economaidd lleol. Os mabwysiedir diffiniad cul o flaenoriaethu diogelwch a hylifedd, mae'n bosibl na chaiff y benthyciadau hyn eu hystyried yn ddewis darbodus.

31. Fodd bynnag, gall awdurdodau lleol wneud y cyfryw fenthyciadau gan ystyried y canllawiau hyn os gallant ddangos yn eu strategaeth;

    (i) Bod amlygiad ariannol i'r mathau hyn o fenthyciadau yn gymesur;
    (ii) Eu bod wedi defnyddio model 'colledion credyd disgwyliedig' a ganiateir ar gyfer benthyciadau a symiau derbyniadwy fel y nodir yn *Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 9 Offerynnau Ariannol* fel y'i mabwysiedir yn ôl arferion priodol i fesur y risg o ran credyd i'w portffolio o fenthyciadau;
    (iii) Bod ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i'r rheolau sy'n ymwneud â chymorth gwladwriaethol a chyfraith cystadleuaeth.
    (iv) Bod ganddynt drefniadau rheoli credyd priodol ar gyfer adennill ad-daliadau sy'n ddyledus;

(v) Bod yr awdurdod lleol wedi cytuno'n ffurfiol ar gyfanswm lefel y benthyciadau y mae'n fodlon eu gwneud, yn ôl y math o fenthyciad, a bod ei lyfr benthyciadau o fewn ei derfyn hunanasesu.

Buddsoddiadau amhenodedig

32. O ran ***buddsoddiadau amhenodedig*** (h.y. y rhai nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o fuddsoddiad penodedig neu fenthyciad), mae Gweinidogion Cymru yn argymell y dylai'r Strategaeth:

(a) nodi'r gweithdrefnau ar gyfer penderfynu pa gategorïau o'r cyfryw fuddsoddiadau y byddai'n ddarbodus eu defnyddio (a phan fo'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys defnyddio *statws credyd*, mae paragraff 47 yn berthnasol);
(b) nodi pa gategorïau o'r cyfryw fuddsoddiadau y nodwyd eu bod yn rhai darbodus i'w defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol;
(c) pennu'r uchafswm y ceir ei ddal yn unigol ac yn gronnol ym mhob categori a nodwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol (gan ddiffinio'r uchafsymiau drwy eu mynegi fel swm o arian neu fel canran o gyfanswm buddsoddiadau'r awdurdod lleol neu'r naill neu'r llall ohonynt);
(d) Ar gyfer y cyfanswm y ceir ei ddal mewn buddsoddiadau amhenodedig, cadarnhau bod unrhyw fuddsoddiadau wedi aros o fewn y terfynau hynny.

Buddsoddiadau Anariannol

33. Fel y'i diffinnir ym mharagraff 4 o'r canllawiau hyn, ystyr buddsoddiadau anariannol yw asedau anariannol a ddelir yn bennaf neu'n rhannol i gynhyrchu elw. Pan fo awdurdod lleol yn dal buddsoddiad anariannol, bydd ganddo ased ffisegol neu asedau y gellir eu gwireddu fel arfer er mwyn adennill y cyfalaf a fuddsoddwyd.

34. Dylai awdurdodau lleol ystyried p'un a oes gan yr ased ddigon o werth i roi sicrwydd buddsoddi gan ddefnyddio'r model gwerth teg yn *Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 40: Eiddo Buddsoddi* fel y'i mabwysiedir yn ôl arferion priodol.

35. Dylai awdurdodau lleol ystyried a yw maint buddsoddiadau masnachol yn cynnwys eiddo yn gymesur ag adnoddau'r awdurdod ac yn bodloni gofynion y Cod Materion Ariannol a'r Cod Rheoli Trysorlys.

36. Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn deall effaith buddsoddiadau mewn gweithgareddau masnachol yn y cynllun ariannol tymor canolig ac yn y tymor hwy. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn deall effaith y cyfryw

fuddsoddiadau dros eu hoes, er mwyn sicrhau fforddiadwyedd a chynaliadwyedd/cadernid ariannol tymor hir mewn perthynas â hwy.

DIOGELWCH, HYLIFEDD AC ARENILLION

37. Bydd gan bolisi buddsoddi darbodus ddau amcan sylfaenol;

    (i) **Diogelwch** – diogelu'r cyfalaf a fuddsoddwyd rhag colled;
    (ii) **Hylifedd** – sicrhau bod yr arian a fuddsoddwyd ar gael i'w wario lle y bo angen.

38. Mae cynhyrchu **arenillion** yn wahanol i'r amcanion darbodus hyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylai awdurdodau lleol anwybyddu refeniw posibl. Unwaith y pennir lefelau diogelwch a hylifedd priodol, bydd yn rhesymol ystyried pa arenillion y gellir eu cael, yn unol â'r amcanion hyn.

Diogelwch

39. Mae'r Cod Materion Ariannol yn nodi'n glir mai prif amcan polisi gweithgareddau buddsoddi rheoli trysorlys awdurdod lleol yw diogelu arian ac y dylai awdurdod lleol sicrhau na chaiff arian cyhoeddus ei amlygu i risg ddiangen neu ddifesur.

40. Lle y bo gwerth teg buddsoddiadau anariannol yn ddigonol i roi sicrwydd rhag colled, dylai'r Strategaeth nodi bod asesiad gwerth teg wedi cael ei wneud o fewn y 12 mis diwethaf, a bod yr asedau sylfaenol yn rhoi sicrwydd ar gyfer buddsoddiad cyfalaf.

41. Lle nad yw gwerth teg buddsoddiadau anariannol yn ddigonol mwyach i roi sicrwydd rhag colled berthnasol, dylai'r Strategaeth nodi manylion unrhyw gamau lliniarol y mae'r awdurdod lleol yn eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i ddiogelu'r cyfalaf a fuddsoddwyd.

42. Pan fo awdurdod lleol yn cydnabod colled berthnasol yng ngwerth teg buddsoddiad anariannol wrth fynd ati i baratoi ac archwilio cyfrifon diwedd y flwyddyn, dylai gyflwyno Strategaeth wedi'i diweddaru i'r cyngor llawn. Gellid darparu'r Strategaeth hon fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb nesaf a dylai nodi effaith y golled ar ddiogelwch buddsoddiadau ac unrhyw oblygiadau o ran refeniw sy'n deillio o hynny.

Hylifedd

43. Ar gyfer buddsoddiadau ariannol nad ydynt yn fuddsoddiadau nac yn fenthyciadau rheoli trysorlys, dylai'r Strategaeth nodi'r gweithdrefnau ar gyfer penderfynu ar y cyfnodau hwyaf y ceir yn ddarbodus neilltuo arian ar

eu cyfer. Dylai hefyd nodi'r cyfnodau hynny a sut y bydd yr awdurdod lleol yn aros o fewn y terfynau buddsoddi a nodwyd ganddo.

44. Ar gyfer buddsoddiadau anariannol, dylai'r Strategaeth nodi'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod modd cael gafael ar yr arian pan fydd angen, er enghraifft er mwyn ad-dalu cyfalaf a fenthycwyd. Dylai hefyd nodi barn yr awdurdod lleol ar hylifedd y buddsoddiadau a ddelir ganddo, gan gydnabod y gall gymryd cryn amser i werthu asedau o dan amodau'r farchnad.

45. Pan fo awdurdodau lleol yn dal portffolios o fuddsoddiadau anariannol, gallant ddewis asesu hylifedd yn ôl dosbarth yr ased neu ar lefel y portffolio os yw'n briodol.

Arenillion (elw net)

46. Efallai y bydd awdurdodau lleol yn ystyried bod angen iddynt ddefnyddio gweithgarwch buddsoddi sy'n cynhyrchu elw er mwyn mantoli'r gyllideb refeniw. Os felly, dylai'r Strategaeth nodi i ba raddau y mae ariannu gwariant er mwyn cyflawni amcanion darparu gwasanaethau a/neu hyrwyddo llesiant yn yr awdurdod lleol hwnnw yn dibynnu ar gyflawni'r arenillion disgwyliedig. Dylai'r Strategaeth nodi cynlluniau wrth gefn yr awdurdod lleol os na fydd yn llwyddo i sicrhau'r arenillion a ddisgwylir.

47. Dylai asesiad o'r ddibyniaeth ar fuddsoddiadau sy'n cynhyrchu elw a'r capasiti benthyca a neilltuir i'w hariannu gael eu datgelu fel isafswm dros gylch oes y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Fodd bynnag, cynghorir yn gryf y dylid asesu risgiau a chyfleoedd tymor hwy.

Y RISG SY'N GYSYLLTIEDIG Â BUDDSODDIADAU

Asesu risg

48. Mae Gweinidogion Cymru yn argymell y dylai'r Strategaeth nodi sut y bydd yr awdurdod yn asesu'r risg o wneud colledion cyn ymrwymo i fuddsoddiadau ac wrth ddal buddsoddiadau, gan sicrhau, yn benodol, bod y materion a ganlyn yn glir:

    (a) I ba raddau, os o gwbl, y mae'n seilio'r broses asesu risg ar wybodaeth am statws credyd a gyhoeddir gan un neu fwy o asiantaethau asesu statws credyd.
    (b) Os defnyddir gwybodaeth am statws credyd, pa mor aml y mae statws credyd yn cael ei fonitro a pha gamau sydd i'w cymryd os bydd y statws yn newid;
    (c) Pa ffynonellau eraill o wybodaeth a ddefnyddir i asesu neu fonitro risg.

Cynghorwyr rheoli trysorlys

49. Mae Gweinidogion Cymru yn argymell y dylai'r Strategaeth nodi:

    (a) A yw'r awdurdod yn defnyddio cynghorwyr allanol sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor neu gymorth mewn perthynas â buddsoddi, ac os ydyw, sut y mae'n eu defnyddio;
    (b) Sut y mae'r awdurdod yn monitro ac yn cynnal ansawdd unrhyw wasanaeth o'r fath.

BUDDSODDI ARIAN A FENTHYCIR

50. Ni chaniateir i awdurdodau fenthyca mwy na'r hyn sydd ei angen arnynt neu cyn bod angen yn codi er mwyn gwneud elw o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycwyd.

51. Pan fo awdurdod lleol, ar ôl ystyried y darpariaethau yn y canllawiau hyn a Chod Materion Ariannol CIPFA, yn penderfynu peidio â dilyn unrhyw un o'r darpariaethau penodol yn y cyhoeddiadau hynny, bydd angen iddo sicrhau o hyd ei fod yn bodloni gofynion y pwerau a'r dyletswyddau a ddarperir gan Bennod 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. At hynny, dylai'r Strategaeth;

    (iii) Nodi'r pwerau cyfreithiol sy'n cefnogi'r trafodion arfaethedig;
    (iv) Dangos ei bod yn rhesymol arfer y pwerau hyn;

(v) Egluro polisïau'r awdurdod lleol wrth fuddsoddi'r arian a fenthycwyd, gan gynnwys sut y mae'n dangos gwerth am arian a sut y gall sicrhau diogelwch y cyfryw arian;
(vi) Cadarnhau bod yr awdurdod yn dymuno gweithredu gyda chymeradwyaeth y cyngor llawn.

GALLU, SGILIAU A DIWYLLIANT

52. Dylai'r Strategaeth nodi'r camau a gymerir er mwyn sicrhau bod gan yr aelodau etholedig a'r swyddogion statudol hynny sy'n gysylltiedig â'r broses o wneud penderfyniadau buddsoddi y gallu, y sgiliau a'r wybodaeth briodol i wneud y canlynol;

    (i) gwneud penderfyniadau hyddysg ynghylch p'un a ddylid ymrwymo i fuddsoddiad penodol ai peidio;
    (ii) asesu asesiadau unigol yng nghyd-destun amcanion strategol a phroffil risg yr awdurdod lleol;
    (iii) deall sut mae cwantwm y penderfyniadau hyn wedi newid y risg gyffredinol y mae'r awdurdod lleol yn cael ei amlygu iddi.

53. Dylai'r Strategaeth nodi'r camau a gymerir er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n negodi cytundebau masnachol yn ymwybodol o egwyddorion craidd y fframwaith darbodusrwydd a'r gyfundrefn reoleiddiol y mae awdurdodau lleol yn gweithredu oddi mewn iddynt.

54. Lle y bo'n briodol, dylai'r Strategaeth nodi'r trefniadau llywodraethu corfforaethol sydd ar waith er mwyn sicrhau atebolrwydd, cyfrifoldeb ac awdurdod ar gyfer gwneud penderfyniadau ar weithgareddau buddsoddi yng nghyd-destun gwerthoedd corfforaethol yr awdurdod lleol.

Llywodraeth Cymru Tachwedd 2019